LLAIS CYMRAEG, ANNIBYNNOL, YMGYRCH Y DDAEAR



# Y Papur Gwyrdd

Rhif 14 Hydref / Tachwedd 2009 PRIS: £1

## Cyfarfod pwysicaf dynoliaeth: Wedi'r trafod hinsawdd — gwên neu ddagrau i Fôr-forwyn Fach Copenhagen?



ISSN 1755-3504

Copenhagen — a fydd ein cenhedlaeth ni'n ymateb?
Atgofion yr henoed am fyd llai barus a dinistriol
Dadleuon ynni — ble mae'r amgylcheddwyr?
Cofio arwres Gymraeg y mudiad organig

PARCHWN Y DDAEAR TORRWN Y CARBON AIL-GYLCHWN Y GWASTRAFF

**Y PAPUR GWYRDD**

***Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i fynnu parch i'r Ddaear***

Golygydd: Hywel Davies, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162 Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com

Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.)

Argreffir Y Papur Gwyrdd yn llwyr ar bapur wedi'i ailgylchu, gan ddefnyddio inc llysieuol ar 8 o'r 12 tudalen, gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.

**Nod Y Papur Gwyrdd yw hybu'r drafodaeth ar yr angen i greu ffyrdd llai dinistriol o fyw er mwyn i'r Ddaear allu parhau i gynnal dynolryw a holl fyd natur.**

## CYNNWYS

**3** **Gobaith am y Ddaear**
►Glo ar y ffordd allan
►Tsieina'n troi at ynni adnewyddol?

**4** **Golygyddol: Copenhagen**
Ein dewis — gwên neu ddagrau i'r Fôr-forwyn Fach
*"Maen nhw'n dwp, chi'n gweld, yn dwp!"*




**5** **Charlotte Davies**: Yr hen a ŵyr — am fyd llai barus a dinistriol



**6** **Ennill a Cholli**
Ymgyrch y Ddaear ledled y byd




**7** **Gordon James**: Dadl ynni — ble mae'n hamgylcheddwyr?



**8** **Llythyrau:**
Trydan glân o hen lynnoedd?
■ *Y Diogelwyr niwclear — pa mor ddiogel ydyn nhw?*

**9** Cofio arwr y mudiad ecolegol — ac arwres Gymraeg y mudiad organig



**10** **Daear-iadur:**
Ymgyrch y Ddaear yng Nghymru

**11** **Y byd a'r aelwyd**
Mentro allan o'n *comfort zone* — a brifo, er mwyn y byd
►*Lluniau: Gwersyll Hinsawdd cyntaf Cymru*

***HYSBYSEB ABACA ORGANICS, tudalen 12***

# Copenhagen Y cyfarfod pwysicaf yn hanes dynoliaeth

**MAE Cynhadledd Hinsawdd Copenhagen ym Mis Rhagfyr yn cael ei disgrifio fel 'y cyfarfod pwysicaf yn hanes dynoliaeth'.**

Dyma'r ymgais i gael cytundeb newydd i ddilyn Protocol Kyoto fydd yn trefnu digon o doriadau ar allyriadau carbon i gadw codiad tymheredd y Ddaear i ddim mwy na 2ºC.

Ystyrir y nod honno fel un sy'n hanfodol os ydym i atal newid hinsawdd rhag neidio allan o reolaeth. A dywed gwyddonwyr fod rhaid cael toriadau o 40% erbyn 2020 os oes gobaith i fod o'i chyrraedd.

Ond ar hyn y bryd, medd y Cenhedloedd Unedig, dim ond toriadau o 15-20% sydd dan ystyriaeth gan y gwledydd diwydiannol. A hyn er bod allyriadau carbon y byd yn dal ar gynnydd.

Gyda pherygl enbyd yn wynebu dynoliaeth, mae sawl mudiad amgylcheddol a chymdeithasol yn galw ar bobl gyffredin i ymuno â'u hymgyrchoedd i wasgu ar lywodraethau i sicrhau bod Copenhagen yn llwyddo – Cyfeillion y Ddaear (http://www.foe.co.uk) , WWF, Greenpeace, Cymorth Cristnogol ac ati.

Gallwn ymuno yn eu hymgyrchoedd i geisio gwarchod y Ddaear ar gyfer cenhedloedd y dyfodol. Gallwn wneud gwahaniaeth.

***► Cafwyd crynodeb ardderchog o bwysigrwydd y cyfnod hwn, gan Fanny Armstrong yn y Guardian :***

'Ces fy ngeni yn y '70au cynnar fel rhan o genhedlaeth MTV a drwythwyd gan filiwn o hysbysebion i gredu mai pwynt ein bodolaeth oedd siopa mwy. Er mor heriol yw'r dasg o'n blaen, rwy'n cael fy ysbrydoli'n enfawr ac yn teimlo eitha' rhyddhad mai'r gwirionedd yw bod gennym rywbeth pwysig i'w wneud.

'Doedd y bobl a ddaeth o'n blaen ddim yn gwybod am newid hinsawdd a bydd y rhai a ddaw ar ein hôl yn hollol ddiymadferth i'w atal. Felly, mae hi i fyny i ni. Daeth cenedlaethau eraill ynghyd i ddod â chaethwasiaeth i ben neu i gael gwared ag apartheid neu i ennill y bleidlais i fenywod.

Yn y bôn, 'does 'na ddim byd hanfodol ddiwerth am ein cenhedlaeth ni, a does dim amheuaeth ynghylch beth sydd angen i ni ei wneud. Yr unig gwestiwn sy'n dal gyda ni yw a fyddwn ni'n gwneud yr ymdrech.'

## Y Papur Gwyrdd - yn eich siop leol neu drwy'r post

Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond os nad yw ar gael yn eich ardal chi, mae croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Llanwch y ffurflen isod a'i danfon gyda'ch taliad atom:

ENW: ..................................................................

CYFEIRIAD: ..........................................................

.......................................... Côd Post.....................

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd**' am ...................

(Unigolion: £6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau i gynorthwyo gyda chostau postio. Sefydliadau: £8.50).

Danfonwch y ffurflen hon gyda'ch siec at:
Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys,
Abertawe SA6 6DX

**EDRYCHWN YMLAEN AT EICH CROESAWU FEL TANYSGRIFIWR I'R PAPUR GWYRDD**

# GLO BRIG I'R GWENDRAETH — DIM DIOLCH!

**GYDA de-ddwyrain Cymru dan warchae eto gan y diwydiant glo pwerus, daeth neges glir o'r Gwendraeth — Cadwch ma's o'n cwm ni!**

Dyna oedd teimlad cryf 150 o bobl mewn cyfarfod ym Mhonthenri yn erbyn cynllun i agor safle glo brig ar lethrau'r Gwendraeth hyfryd.

Bu'r anrhaith achoswyd gan weithgarwch tebyg yn y cwm yn y 1960au yn ddigon o rybudd i'r trigolion.

Ond cawsant gadarnhad o hynny gan bobl deithiodd o Ferthyr Tudful i ddweud sut maen nhw'n dioddef o'r sŵn a'r brynti sy'n cael ei achosi i'w cartrefi gan safle glo brig Ffos-y-fran — er yr holl addewidion hawliau cynllunio.

Byddai prosiect newydd Cwm Gwendraeth yn golygu rhwygo'r llethrau rhwng Pontyberem a Phonthenri am gyfnod o 6 blynedd.

Ar wahan i'r niwed i safon byw pobl y cwm, byddai codi'r glo yn ergyd arall i'r Ddaear trwy'r $CO_2$ fydd yn achosi newid hinsawdd a dioddefaint i blant y dyfodol.

Gwarth yw bod canllawiau cynllunio yn caniatau hyd yn oed ystyried troseddu yn erbyn y Ddaear gan y diwydiant glo fel hyn — gyda phob swydd yn ergyd i ddyfodol glân i'r gymuned a'r blaned.

*Safwn gyda phobl Cwm Gwendraeth i atal anfadwaith arall yn enw Glo Brwnt!*

► *Gweithredu y Glo: tud 6*

**Peidiwch â dioddef fel ni — medd pobl Merthyr Tudful**



Bygythiad i lethrau'r Gwendraeth — a'r Ddaear

ARWYDDION GOBEITHIOL I'R DDAEAR?

# Tsieina'n troi at ynni adnewyddol — a Los Angeles yn gwrthod glo

**WRTH i'r diwydiant glo lygadu Cymru unwaith eto am elw tymor-byr, mae arwyddion bod gweddill y byd yn dechrau troi yn erbyn tanwyddau ffosil wrth i beryglon $CO_2$ i'r Ddaear gyfan trwy newid hinsawdd ddod yn amlycach.**

Gwlad enfawr, Tsieina, a dinas enfawr, Los Angeles, sydd wedi rhoi'r arweiniad sy'n codi gobeithion bod gwledydd y byd yn callio gyda Chynhadledd Hinsawdd Copenhagen bellach mor agos.

► Bu Tsieina'n un o brif achoswsyr nwyon tŷ gwydr y Ddaear ers tro.

Ond, wrth annerch y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd ym Medi, gwnaeth yr Arlywydd Hu Jintao araith o bwys yn datgan bod y wlad yn symud o danwyddau ffosil brwnt, fel glo, i ynni adnewyddol.

Pa mor gyflym y daw hyn yw'r cwestiwn canolog, ond eisoes mae Tsieina wedi dyblu eu cynnyrch trydan o dwrbeini gwynt i 11 GW, tra bod buddsoddiad India mewn technoleg lân hefyd wedi codi 12% yn ystod 2008 (*Cen.Unedig*).


► Daeth yr hwb annisgwyl arall gan Faer newydd Los Angeles, Antonio Villaraigosa.

Cyhoeddodd ef y bydd y ddinas yn dod â chytundeb i ddefnyddio glo fel tanwydd pŵer i ben erbyn 2020.

Meddai Villaraigosa mai'r bwriad yw cael trydan o ffynonellau adnewyddol.

Mae talaith Texas eisoes wedi dechrau troi o lo i ynni gwynt, a Florida o lo i ynni haul. ■

■ ***Am y tro cyntaf, denodd ynni adnewyddol mwy o fuddsoddiad nag ynni brwnt yn ystod 2008.***



**GOLYGYDDOL** | **HYWEL DAVIES**



# I'r Fôr-forwyn Fach — gwên neu ddagrau? Parch i'r Ddaear yw'r ateb

**WRTH ymweld â Chopenhagen flynyddoedd yn ôl – gan gymryd y cyfle fel pob *tourist* i dynnu lluniau o'r Fôr-forwyn Fach – doedd y syniad y byddai'r ddinas hyfryd honno yn dod yn ganolog i barhad dynoliaeth ar y Ddaear ddim wedi croesi fy meddwl.**

Gallwn fentro na fyddai neb arall yn y ddinas wedi breuddwydio hynny 'chwaith ar y pryd. Cofiwch, son ydw i am dros 40 mlynedd yn ôl!

Erbyn hynny, roedd Rachel Carson newydd



ysgrifennu ei chyfrol broffwydol **Silent Spring**, a Charles Keeling wedi dechrau ar ei waith hollbwysig wrth fesur canran y $CO_2$ yn yr atmosffer. Ond doedd 'na ddim mudiad ecolegol o bwys a doedd y diweddar Teddy Goldsmith ddim wedi sefydlu cylchgrawn hynod ddylanwadol **The Ecologist** (gweler cyfeiriad at ei farwolaeth ar dudalen 9).

Yr hyn sydd wedi gwthio Copenhagen i ganol y llwyfan ym mis Rhagfyr yw ei bod hi'n digwydd bod yn lleoliad cynhadledd a drefnwyd gan y Cenhedloedd Unedig, a bod pwnc y cyfarfod hwnnw wedi datblygu i fod yn bwnc mwya'r oes — sef Cynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd.

Arwyddocâd Cynhadledd Copenhagen yw bod consensws mawr iawn wedi tyfu ymhlith gwyddonwyr hinsawdd ac amgylchedd bod angen dybryd am gytundebau rhyngwladol i dorri o ddifrif ar faint y Carbon rydyn ni'n arllwys mor ddi-hid i'r atmosffer.

Y rhybudd lleiaf ganddynt yw ein bod yn achosi newidiadau i batrymau naturiol fydd yn gwneud bywyd yn anodd iawn i'n plant a phlant ein plant. Ond mae 'na leisiau cynyddol a sylweddol sydd ofni'n waeth na hynny ein bod yn achosi newidiadau naturiol fydd yn bygwth parhad dynoliaeth ar y blaned hon yn gyfan gwbl os na dorrwn ar y Carbon.

Daw'r rhybudd mwya' diweddar gan academi wyddonol y Royal Society mewn adroddiad sy'n asesu prosiectau planedol enfawr i leihau allyriadau carbon.

Dywed yr Athro John Shepherd, cadeirydd yr astudiaeth, "Mae'n wirionedd chwerw os na lwyddwn i leihau allyriadau $CO_2$ o ddifrif, byddwn yn symud i ddyfodol hinsawdd hynod anghyfforddus a heriol, a pheirianneg blanedol fydd yr unig opsiwn fydd ar ôl i gyfyngu ar gynnydd pellach yn y tymheredd.

"Dangosodd ein hymchwil y gallai rhai technegau peirianneg blanedol achosi canlyniadau difrifol o niweidiol i lawer o bobl ac ecosystemau," meddai, "Er hynny, rydyn ni'n dal yn methu gwneud yr unig beth sy'n gallu ein hatal rhag dibynnu arnynt. Peirianneg blanedol a'i ganlyniadau yw'r pris y bydd rhaid i ni ei dalu efallai am fethu â gweithredu ar newid hinsawdd."

Felly, gwên neu ddagrau fydd hi i Fôr-forwyn Fach Copenhagen? Yr ateb yw mai'r Ddaear a'i systemau naturiol fydd yn penderfynu. Y cyngor gorau i'r holl gynrychiolwyr llywodraethol fydd yn Copenhagen, gyda'u hesgusodion cyfyng, gwladwriaethol, yw iddynt gofio hynny wrth lunio'r cytundeb. Parchwn y Ddaear. Neu ddagrau gawn ni.



## Llai 'twp' erbyn hyn?

**RWY'N credu mai Cassie Davies, Tregaron, oedd â'r stori hon am D.J.Williams, Abergwaun.**

Roedd D.J. yn ddiarhebol o egniol wrth geisio gwerthu copïau o bapur misol **Y Ddraig Goch** ac wrth annog hunanlywodraeth i Gymru yn nyddiau cynnar y mudiad cenedlaethol. Ond, mae arloesi syniadau newydd yn gallu bod yn waith digalon. Ac felly roedd pethau, medd D.J. wrth Cassie un tro.

Roedd e'n methu â deall, meddai Cassie, pam oedd pobl mor llugoer eu hymateb ynglŷn â dyfodol eu hiaith a'u cenedl. A meddai DJ fel esboniad, "Maen nhw'n dwp, chi'n gweld Cassie, maen nhw'n dwp!"

Yn wyneb rhybuddion mwyafrif llethol gwyddonwyr a sefydliadau gwyddonol y blaned, anodd deall sut mae cymaint o bobl yn dal yn llugoer ynglŷn â phwnc Cynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd. Ac, mewn rhwystredigaeth debyg, mae rhai'n ei chael yn anodd i beidio â throi at D.J. am eglurhad!


Ond mae'r rhod yn troi. O aelodau Sefydliad y Merched i ieuenctid Gwersyll Ffos-y-fran, mae'r werin yn dechrau deall bod rhaid gofalu am y Ddaear wrth fyw ein bywydau. Serch hynny, mae Gordon James (t7) yn iawn i herio 'amgylcheddwyr' Cymru i fod yn fwy parod i gario'r neges i ganol y rhai sy'n dal i wadu'r bygythiad. ☐

**GWEFAN Y PAPUR GWYRDD**

**Wedi bod yn 1 tudalen unig ers ei lansio yn 2007, mae Gwefan Y Papur Gwyrdd ar fin cael ei chwyddo i fod yn gymuned o 5 tudalen. Bydd yno wybodaeth am ymgyrch y Ddaear, sut i hybu gwerthiant y cylchgrawn, a chysylltiadau at amrywiaeth o fudiadau eraill sy'n caru'r Ddaear.**

**Croeso i chi ymweld â'r Wefan wrth i ni baratoi at y newydd wedd: www.ypapurgwyrdd.com**

# Cydnabod terfynau — hanfodol i'n parhad ar y Ddaear



Dr Vivian Jones

**… Erbyn hyn mae cydnabod terfynau yn elfen gynyddol ac anorfod yn ein bywydau.**

**Yr oedd y penderfyniad i beidio â defnyddio'r awyren hardd *Concorde* mwyach – cefais gipolwg arni un waith, yn glanio ar faes awyr yn Jamaica – yn un trist, ac eto yr oedd yn iach ein bod yn gorfod cydnabod ein bod wrth ei chreu hi wedi cyrraedd rhyw derfyn, er mai terfyn masnachol oedd hwnnw, nid un technolegol.**

**A bellach gwyddom fod cydnabod terfynau ynghlwm wrth barhad bywyd dynol ar ein planed.**

**Hyn a hyn o adnoddau sydd ar ein cyfer ar y ddaear, hyn a hyn yn unig o niwed y gallwn ei wneud i'r ddaearen.**

► O **Menter Ffydd**, Dr Vivian Jones (Tŷ John Penri 2009)

*'Yr hen a wyr, yr ifanc a dybia'! - Charlotte Davies a'r bobl sy'n cofio oes llai dinistriol …*

# Pobl hŷn — profiadau pwysig wrth wynebu newid hinsawdd

**MAE gan lawer o bobl hŷn brofiad o fyw bywydau symlach, llai dinistriol i'n daear, ond mae eu hatgofion yn adnodd gwerthfawr sydd ddim yn cael eu cydnabod yn ein cymdeithas.**

Erbyn hyn, mae ein ffordd o fyw yng ngwledydd cyfoethog y Gorllewin yn cyfrannu'n sylweddol at argyfwng newid hinsawdd y Ddaear.

***Ond, i raddau helaeth, mae'r ffordd hon o fyw wedi datblygu dim ond ers y 1950au.***

Felly mae *'think-tank'* y Cynghrair Gwyrdd wedi ceisio gwneud syniadau pobl hŷn sydd â phrofiad o fyw'n llai barus a niweidiol yn fwy amlwg yn y drafodaeth trwy sefydlu 'Gweithlu Gwyrddach a Doethach'.

Grŵp o ddeg o bobl rhwng 52 a 90 mlwydd oed yw'r Gweithlu sy'n trafod pynciau gwyrdd i greu maniffesto am newid.

Mae'r hynaf ohonynt, Tom Conway, 90, yn gadeirydd ar grŵp amgylcheddol Dwyrain Berwickshire sy'n gysylltiedig â Phrifysgol y Drydedd Oes. Cynorthwyodd sefydlu cynllun rhandiroedd yn ei bentref ei hun.

Dywed Tom: 'Mae gan hen bobl brofiad helaeth – o ddirwasgiad y 1930au a'r Ail Ryfel Byd – sydd o werth mawr yn y sefyllfa bresennol. Tynnwch ni mewn, gofynnwch am ein cyngor, ein profiad, ein gwybodaeth.'



Gan
DR CHARLOTTE DAVIES

Yn eu maniffesto mae'r Gweithlu'n mynnu bod hen bobl yn dod yn rhan o'r broses o lunio polisïau ar yr amgylchedd. Maent hefyd yn awgrymu eu hyfforddi fel ymgynghorwyr amgylcheddol i ledu'r gair am fyw'n fwy gwyrdd.

Mae Oxfam eisoes yn gwneud rhyw-beth tebyg trwy eu fideos *'Green Granny'* ar y Wê, gyda 'mam-gu' yn awgrymu newidiadau bach i dorri ar allyriadau carbon personol.

Mae'r Gweithlu hefyd yn ystyried y problemau arbennig a wynebir gan bobl hŷn eu hunain wrth ymdrechu i fod yn wyrdd ar incwm sydd yn aml wedi lleihau'n sylweddol.

Er enghraifft, mae angen cymorth ariannol ar lawer i dalu am inswleiddio eu cartrefi, yn enwedig gan fod pobl hŷn yn teimlo eu bod yn annhebyg i weld mantais ariannol tymor-hir o'u gwariant.

Ar y llaw arall mae'r Gweithlu'n cydnabod bod llawer o bobl o bob oedran yn wynebu sefyllfa debyg: 'Rydyn ni'n wynebu anawsterau o ganlyniad i'n hoedran wrth wneud dewisiadau gwyrdd, ond mae eraill yn eu hwynebu am resymau gwahanol a dylen nhw hefyd cael cefnogaeth.'

Fel mae Florence Lyons, aelod arall o'r Gweithlu sydd yn ei 80au, yn gofyn: 'Ydy hyn yn ymwneud ag arbed arian i bobl hŷn neu achub yr amgylchedd i bawb? Byddwn yn colli'r pwynt os nad ydym yn cadw at yr amgylchedd.'

Creodd systemau marchnata cyfalafol hollt rhwng y cenedlaethau. Nawr, wrth i argyfwng newid hinsawdd ddwysáu, mae'r Gweithlu Gwyrddach a Doethach yn ceisio dod â phawb ynghyd, heb ots am oedran, fel y cawn elwa o brofiadau a gwybodaeth y gymuned gyfan.

►Am fwy o wybodaeth: http://www.green-alliance.org.uk ac http://www.oxfam.org.uk.

## Sylw yn America i'r Merched Gwyrdd

**LLONGYFARCHIADAU i 'Dimau Gwyrdd' Sefydliad y Merched am eu gweithgarwch wrth fabwysiadu ffyrdd o fyw sy'n parchu'r Ddaear.**

**A chanmoliaeth arbennig i Gangen Llanddewi Brefi a Bwlchllan am eu brwdfrydedd heintus wrth annog canghennau eraill i ddilyn eu hesiampl trwy arbed ynni, torri lawr ar wastraff, inswleiddio, compostio, gwrthod bagiau plastig, ac ati.**

**Rhoddwyd lle blaen-llaw i'w hymdrechion gan asiantaeth Cynnal Cymru mewn arddangosfa o luniau yn Washington yn ystod Gŵyl Gymreig y Smithsonian dros yr Haf.**

**Cawsant sylw, hefyd, mewn cyflwyniad yn un o amgueddfeydd eraill prif ddinas America.**



# ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

Pigion amrywiol 2 fis

## ATAL FFOS-Y-FRAN

DAETH gwaith i ben am oriau ar safle glo brig enfawr Ffos-y-fran, Merthyr Tudful, ar ôl i ddau ŵr dewr hongian eu hunain mewn rhwyd oddi ar un o bontydd y gwaith. Honnir gan y cwmni Miller Argent y bu 242 o weithwyr yn segur o'u gwaith yn cynhyrchu glo - sef glo fydd yn achosi nwyon tŷ gwydr sy'n sbarduno newid hinsawdd.

## FFOI O'R TYWYDD

ADRODDIAD o'r Cenhedloedd Unedig yn dangos bod 20 miliwn o bobl wedi colli eu cartrefi o ganlyniad i drychinebau newid hinsawdd yn ystod 2008. Mae hyn yn bedair gwaith yn fwy na nifer y bobl a gollodd eu cartrefi oherwydd rhyfeloedd a thrais. Dywedir bod trychinebau sy'n deillio o newid hinsawdd ar gynnydd.

## SIAMBR 'EITHAFOL'

CYHOEDDOD cwmni cynhyrchu trydan Pacific Gas & Electricity yn San Francisco eu bod yn gadael Siambr Fasnach yr Unol Daleithiau fel protest yn erbyn safbwyntiau 'eithafol' y Siambr wrth geisio atal deddfwriaeth i leihau allyriadau tŷ gwydr.

## BRWYDRO v GLO

YNG Ngorllewin Virginia, gwrthdystiad arall yn erbyn ymosodiadau'r diwydiant glo pwerus ar Appalachia hardd gyda'u dull o chwalu copaon mynyddoedd. Clymodd pedwar gŵr - 81, 75, 53 a 22 oed - eu hunain i gatiau prif swyddfa cwmni Massey Energy. Meddai Rolan Micklem, 81: "Nid ymgyrch pobl ifainc yn unig ddylai hyn fod … Rhaid i ni'r henoed wneud datganiad trwy weithredoedd a rhannu'r risgiau sy'n rhan o'r ymdrech i atal difodiant mynyddoedd Gorllewin Virgina."

## ATAL TAR TYWOD

YN Alberta, Canada, ym mis Medi cynhaliodd aelodau Greenpeace flocâd 30 awr o gloddfa tar tywod Albian Sands sy'n eiddo i Shell. Aeth 25 aelod i'r safle ger Fort McMurray gan atal y cyfan o'r gwaith am gyfnod. Disgrifiwyd cloddio tar tywod fel 'trosedd hinsawdd' gan un o griw Greenpeace, gan ychwanegu y ceir mwy o weithredu tebyg.

## MWY O LO BRIG

MAE cwmni glo Energybuild i gael sêl bendith Cyngor Castell-nedd Port Talbot i agor safle glo brig newydd ger Glyn Nedd er gwrthwynebiad cryf cyngor a phobl y pentref a'r RSPB. Dywedodd swyddog y cyngor bod 30 swydd dros dro yn bwysicach na'r niwed amgylcheddol lleol. *Dyw'r allyru $CO_2$ ddim yn fater o ystyriaeth i reolau cynllunio!* Mae Energybuild bellach dan reolaeth cwmni rhyngwladol Western Canada Coal wrth i Gymru ddod dan warchae.

## MUDIAD 10:10

YN Llundain, trwy griw'r ffilm **Age of Stupid** a phapur newydd y **Guardian**, lansiwyd mudiad amgylcheddol newydd o'r enw **10:10.** Mae'r mudiad yn gwahodd pobl i ymuno â rhestr sy'n datgan ymrwymiad i ostwng eu hallyriadau carbon personol o 10% yn ystod 2010 fel arwydd i wledydd fel Tsieina ac India fod pobl yn y Gorllewin cyfoethog yn barod i dorri 'nôl ar eu ffordd farus o fyw.

## AT YR ARIANWYR

WEDI llwyddiant Gwersyll Hinsawdd gyntaf Cymru ger safle glo brig Ffos-y-fran ym mis Awst, bu rhai o'r gwersyllwyr ymhlith miloedd o aelodau mudiad Climate Camp yn cynnal gwersyll ynghanol Llundain. Cafwyd protestiadau heddychlon yn ardaloedd y pencadlysoedd ariannol a achosodd y trafferthion ariannol sydd wedi arwain at golli swyddi a chwalu cynilion miliynau o bobl ledled y byd.

## NEGES O INDIA

AR afon iâ Rohtang ym mynyddoedd yr Himalayas yn yr India ar 22 Medi, daeth tyrfa ynghyd i ddanfon neges at arweinwyr y byd yn Efrog Newydd. Meddai'r cyfarwyddwr ffilm Shekhar Kapur, "Wrth sefyll ar rewlif Rohtang gan wybod ei fod yn toddi a bod hyn yn golygu y bydd ein hafonydd, gan gynnwys y Ganges, yn araf ddiflannu ... rwy'n ofni am ryfeloedd dŵr ac am ddyfodol Kaveri fy merch naw mlwydd oed."

## FFLACH DYRFA

CYNHALIWYD gweithredoedd *fflach dyrfa* yn Abertawe a Chaerdydd yn niwedd Medi i dynnu sylw siopwyr at bwysigrwydd Cynhadledd Hinsawdd Copenhagen. Gwasgwyd arnynt i bwyso ar arweinwyr gwleidyddol i fynnu cytundeb cryf i dorri allyriadau carbon. Hyd yn hyn, cafwyd dros 200 o ddigwyddiadau *fflach dyrfa* yng ngwledydd Prydain a 2,000 ledled y byd. Amserir y digwyddiadau am 12.18 o'r gloch – sef dyddiad Cynhadledd Copenhagen, Rhagfyr 18.

**5 RHAG : Y DON : LLUNDAIN**

# Rhybuddion $CO_2$ yn pentyrru

**DAETH rhybudd gwyddonol pellach ein bod fel pobl yn wynebu argyfwng newid hinsawdd enbyd ar y Ddaear oni gymerwn y dasg o newid ein ffordd o fyw i dorri carbon o ddifrif.**

Y tro hwn, mae prif wyddonydd hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, Dr Rajendra Pachauri, wedi datgan bod rhaid gostwng lefel y Carbon Deuocsid yn atmosffer y Ddaear i **350ppm** (darn y filiwn) mor fuan ag y bo modd.

"Mae'r hyn sydd yn digwydd, a'r hyn sy'n debyg iawn i ddigwydd, wedi fy narbwyllo bod rhaid i'r byd fod yn uchelgeisiol a chryf wrth symud at darged o 350," meddai Dr Pachauri, pennaeth y Panel Rhyng-lywodraethol ar Newid Hinsawdd, mewn cyfweliad gydag *Agence France Presse*.

Hyd yn ddiweddar bu mwyafrif y gwyddonwyr hinsawdd yn credu bod lefel o 450 yn ddiogel. Ond newidiodd eu barn yn wyneb toddiant dramatig iâ'r Arctig yn ddiweddar.

Eu cred nawr yw bod lefel uwch na 350ppm o $CO_2$ yn yr atmosffer yn achosi cynhesu byd-eang hynod beryglus.

■ ***Mae carbon eisoes wedi cyrraedd lefel o 387 darn y filiwn.***

## APÊL Y MALDIVES: MAE EIN GWLAD YN BODDI!

**OS aiff pethau ymlaen yn ôl patrwm busnes-fel-arfer, fyddwn ni ddim yn byw, byddwn yn marw. Fydd ein gwlad ddim yn bodoli. Allwn ni ddim dod o Copenhagen wedi methu. Allwn ni ddim gwneud Copenhagen yn *pact* hunanladdiad. Rhaid i ni lwyddo, a rhaid i ni ddod i gytundeb yn Copenhagen.**

*Mohamed Nasheed, Arlywydd Ynysoedd y Maldives wrth annerch yn Efrog Newydd ym Medi. Mae'r wlad yn wynebu diflaniad wrth i lefel y môr godi o ganlyniad i gynhesu byd-eang.*

# Ym merw trafod ynni glân — mor rhwydd ac mor anghywir i ddweud ... NA!

## GORDON JAMES YN HOLI — ‘BLE MAE’R YMGYRCHWYR GWYRDD?’

**MAE ’na lu o atebion i newid hinsawdd.**

Gellir gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr yn fawr trwy wella effeithiolrwydd egni a thrwy ddatblygu systemau ynni adnewyddol a thrafnidiaeth garbon isel ar raddfa eang.

Ond mae ’na rwystrau mawr i hyn.

Dywedwyd wrthyf mewn cyfarfodydd cyhoeddus, ac yn grac iawn o dro i dro, bod ***twrbeini gwynt*** yn annerbyniol am eu bod yn anharddu’r dirwedd, am fod angen cymorthdaliadau arnyn nhw, ac am eu bod yn gweithredu am lai na thrydedd ran o’u gallu cynhyrchu llawn.

Yn ystod cyfarfod mewn pentref ar arfordir Sir Benfro, clywais sut mae offer ***ynni llanw a thonnau*** yn bygwth bywyd y môr, pysgota‘r glannau a thwristiaeth.

Ac am ***baneli haul***, wel, cynhyrchu’r rhan fwyaf o’i ynni yn yr haf mae’r system ynni adnewyddol hyn pan mae lleiaf ei angen.

Mae arbed ynni yn well opsiwn o lawer — ar wahân i’r ffaith bod yr inswleiddio, y ffenestri dwbl a’r bwyleri newydd mwy effeithiol yn costio llawer. Ac mae astudiaethau’n dangos tueddiad i wario’r arian a arbedir trwy brynu offer i’n cartrefi sy’n defnyddio mwy o ynni.

Ac am drafnidiaeth, wel, mae’r modurwr druan yn darged mor aml felly peidiwch hyd yn oed ag ystyried cyflwyno costau tagfeydd yn ein trefi a’n dinasoedd neu daflu mwy o dreth ar danwydd. Ac, yn ôl y cyn-AS Llafur Brian Wilson, byddai treth ar hedfan yn troi ‘teithio awyr yn ôl i fod yn rhywbeth i’r elît cyfoethog.’

**TAFLU CHWEDLAU YN ERBYN YNNI GWYRDD**

Er bod y mwyafrif yn cytuno bellach bod newid hinsawdd yn fygythiad sydd rhaid ei wynebu, yn rhy aml rydyn ni’n galw ar y chwedlau uchod i’n hesgusodi ni o’r angen i weithredu ac i dderbyn newid.

**A chwedlau ydyn nhw.**

- Mae systemau **ynni gwynt** yn ehangu ledled y byd am eu bod yn effeithiol wrth leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Mae’r Almaen wedi ddangos bod **ynni’r haul** yn fuddsoddiad call hyd yn oed yng ngogledd Ewrop.
- Mae modd ac angen harneisio **ynni’r llanw a’r tonnau** — mewn ffordd ofalus — os ydym i gyfyngu newidiadau hinsawdd i lefelau y gallwn eu rheoli.



**GORDON JAMES**
**Pennaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru**

Does gan y modurwr fawr i gwyno amdano mewn gwirionedd oherwydd mae costau moduro ar y cyfan wedi disgyn 17% rhwng 1979 a 2008. Ac yn ystod yr un cyfnod, cododd prisoedd teithio bws 55%, tra bod prisoedd rheilffyrdd wedi codi 49%.

Datgela’r ffeithiau hyn ragrith pryderon Brian Wilson am y llai breintiedig. Mae’r cymorth ariannol blynyddol i gwmnïau hedfan o £10biliwn gan drethdalwyr y Deyrnas Gyfunol yn elwa’r grwpiau incwm uchel sy’n gwneud y rhan fwyaf o’r hedfan.

Mae’r chwedlau hyn yn cael eu hatgyfnerthu gan rannau o’r wasg boblogaidd sydd yn ddiweddar, er enghraifft, wedi lansio ymgyrch gwrthwynebu, y *Battle of the Bulbs*, yn erbyn penderfyniad Ewrop i osod bylbiau ynni isel yn lle’r bylbiau *incandescent* sydd mor wastraffus o ynni ac arian. Yn ôl adroddiad y **Daily Mail** (1 Medi), ‘Maen nhw’n cymryd rhy hir i gynhesu, yn rhoi golau gwan ac yn hyll.’

Yng Nghymru, mae penderfyniad canmoladwy Jane Davidson i godi tâl o 15c ar fagiau plastig wedi denu’r un math o feirniadaeth.

Un o weithgareddau cyntaf ymgynghorydd ynni gwyrdd newydd llywodraeth y DG, yr Athro David McKay, fu i fflangellu’r cyhoedd am wrthwynebu bron y cyfan o’r cynlluniau i dorri allyriadau.

**GWRTHWYNEBIAD Y CYHOEDD YN RHWYSTR**

Er ei bod yn gywir i wrthwynebu rhai atebion, megis pŵer niwclear, llosgyddion gwastraff a morglawdd yr Hafren, gan y byddan nhw’n rhwystro symud ymlaen yn adnewyddol, mae’r athro’n gwneud pwynt dilys iawn.

Ynghyd â grym lobïo’r busnesau mawrion, yn arbennig y cwmnïau tanwydd ffosil, mae gwrthwynebiad y cyhoedd i newid yn un o’r rhwystrau pennaf i’n goroesiad. Er bod seicolegwyr wrthi’n astudio ac yn cynnig ffyrdd o gael pobl i ymateb yn fwy cadarnhaol, gallai hyn fod yn rhy hwyr yn wyneb cyflymder newid hinsawdd.

Mae gan ymgyrchwyr amgylcheddol, gan gynnwys y rheiny sy’n cymryd rhan mewn gweithredu uniongyrchol di-drais, ran hanfodol i’w chwarae wrth greu ymwybyddiaeth a hyrwyddo newid.

**Ond y broblem yw bod gormod ohonyn nhw’n ymddangos yn amharod i ymuno â’r frwydr yn y rheng flaen.** ☐

# Llythyrau

At: Y Golygydd, Y Papur Gwyrdd, 217
Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com

# Pam na ddefnyddiwn gronfeydd dŵr segur i greu trydan glan?…

**Annwyl Olygydd,**
**Wrth deithio o gwmpas Cymru rwy'n credu ei fod yn amlwg nad ydym yn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym ar gyfer creu ynni adnewyddol.**

Rwy'n ei hystyried yn siom aruthrol ac yn wastraff llwyr ein bod yn gadael i'r adnoddau gwerthfawr hyn aros yn segur tra bod cymaint o alw am ynni glân.

Er enghraifft, mae nifer fawr o hen gronfeydd dŵr mewn hen ardaloedd diwydiannol yng Nghymru nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio i gyflenwi dŵr yfed na dŵr i weithfeydd.

Rwy'n gyfarwydd â chronfa ddŵr uwchben Cwmbrân Uchaf sydd wedi bod yn segur ers blynyddoedd maith, ac sy'n casglu dŵr oddi ar ardal eang, gan ei bod yn eistedd ar waelod powlen sydd wedi'i hamgylchynu gan lethrau yn llawn coed.

Wrth wneud amcangyfrifon bras, mae'r gronfa rhyw 4000 $m^2$ o faint, a phetai dyfnder y dŵr ar gyfartaledd yn 5m, byddai hynny'n golygu bod 20,000$m^3$ o ddŵr yn y gronfa, sef 20 miliwn o litrau. Mae'r heol agosaf islaw'r gronfa rhyw 80 medr yn is: oni ddylai fod modd harneisio'r egni sydd yn y dŵr, er mwyn darparu trydan?

Dyna'r ffeithiau plaen – a dyna pa mor bell mae fy ngwybodaeth wyddonol / beiriannol yn mynd.

Yn anffodus yn yr achos hwn mae cymhlethdodau. Yn gyntaf, mae'r gronfa a'r tir sydd o'i chwmpas bellach mewn dwylo preifat. (Pam? Rhywbeth i wneud â gwerthoedd Mrs Thatcher a'r ffaith ei bod hi a'i thebyg yn falch i gael ceiniog wrth werthu adnoddau gwerthfawr). Yn ail, mae gwendidau yn yr argae, a fyddai'n golygu tipyn o wariant i'w atgyfnerthu.

Efallai bod rhesymau ymarferol yn yr achos hwn i rwystro unrhyw ddatblygiad, ond gwyddom fod nifer o gronfeydd tebyg mewn mannau uchel yn hen ardaloedd diwydiannol De Cymru sydd wedi colli eu pwrpas gwreiddiol.

Ga'i ofyn i bobl sydd gyda mwy o wybodaeth a phrofiad yn y maes: a oes unrhyw reswm ymarferol pam na ellir harneisio'r egni sydd yn y dŵr yn yr hen adnoddau hyn i gynhyrchu trydan?

Byddai hyn yn llawer mwy dymunol na chael mwy o orsafoedd niwclear a rhai sy'n llosgi glo, a hefyd yn fwy caredig i'n hamgylchedd na chael pla o ffermydd gwynt ar draws y wlad.

Yn gywir,
Gethin Matthews,
Caerdydd

## … Mwy o ryddid i greu egni

**BYDD hi'n haws i bawb ohonom greu ein trydan adnewyddol ein hunain wedi i Weinidog Amgylcheddol Cymru, Jane Davidson, gyhoeddi rheolau cynllunio mwy llac ar 1 Medi.**

**Meddai Ms Davidson, "Rhan allweddol o ddelio â newid hinsawdd fydd lleihau ein dibyniaeth ar ynni carbon.**

**"Dyma lle bydd gan fan-gynhyrchu gyfraniad mawr. Mae'n rhoi'r cyfle i gartrefi gynhyrchu eu hynni glan, gwyrdd."**

**O hyn ymlaen, fe fydd hi'n haws i gymunedau lleol ac unigolion greu prosiectau paneli haul bychain, pwmpiau gwres tanddaearol, ac offer biomass.**



***►Ond dyw'r rheolau ddim wedi'u llacio am drydan dŵr — na thwrbeini gwynt (gweler Gordon James, t7)***

## DEISEBU I ACHUB FFORESTYDD

MAE mudiad Rettet den Regenwald / Achub Fforestydd Glaw wedi lansio ymgyrch byd-eang yn erbyn cwmni BP sy'n achosi difrod mawr i goedwigoedd a safana Brazil er mwyn cynhyrchu danwydd ethanol o gansenni siwgr.

Gydag un burfa ethanol eisoes ar waith, ac un arall yn cael ei chynllunio, mae BP yn buddsoddi 4 biliwn Ewro yn y fenter oherwydd yr elw ddaw iddynt trwy daliadau gan lywodraethau am danwyddau llysieuol.

Gellir arwyddo deiseb ar-lein ar: http://www.rainforest-rescue.org/index.php.

**CROESEWIR llythyrau, gyda'r dealltwriaeth nad yw cyhoeddwyr Y Papur Gwyrdd o reidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir.**

# Ydy 'dwylo diogelwch' y diwydiant niwclear yn ddiogel eu hunain?

MAE Prif Arolygydd Niwclear y Deyrnas Gyfunol, Mike Weightman, wedi cyfaddef bod "heriau sylweddol" wrth geisio sicrhau bod hen orsafoedd niwclear yn cael eu rhedeg neu eu datgymalu'n ddiogel wrth geisio ar yr un pryd sicrhau bod gorsafoedd niwclear newydd yn ddiogel i'w codi.

Cwyd yr ofnau hyn yn wyneb prinder arolygwyr a'r awgrym gan Arolygaeth Sefydliadau Niwclear y DG y byddan nhw'n ystyried caniatau adeiladu pwerdai niwclear newydd heb ddatrys cwestiynau diogelwch o flaen llaw.

Bu Llywodraeth San Steffan yn gwthio'n gynyddol am genhedlaeth newydd o atomfeydd ers cyfnod Tony Blair fel Prif Weinidog.

O dan bwysau gan Whitehall, mae'r Arolygaeth o blaid cydweithio gyda diwydiant niwclear Tsieina a Ffrainc er mwyn gwthio'r cynlluniau niwclear ymlaen … ac mae gan Rwsia ddiddordeb, hefyd.

Dywedir, yn ogystal, bod yr Arolygaeth yn ceisio recriwtio arolygwyr o'r cwmniau sy'n gobeithio codi'r pwerdai niwclear newydd.

O ganlyniad, dywed Dylan Morgan, ysgrifennydd mudiad PAWB (Pobl yn Erbyn Wylfa B) fod gwrthdrawiad diddordebau amlwg yn bodoli bellach.

"Yn sgil hyn," meddai Mr Morgan, "dylai'r Arolygaeth Sefydliadau Niwclear fel adain o'r Weithredaeth Iechyd a Dioglewch ail-ystyried eu sefyllfa, neu wynebu colli hyder y cyhoedd yn eu gallu i reoleiddio'n agored."


# 'Datblygiad' yn ddinistriol! — Colli'r arwr a heriodd y tabŵ

**BU farw Teddy Goldsmith, sylfaenydd cylchgrawn arloesol yr *Ecologist* ac un o amgylcheddwyr pwysicaf a mwyaf dadleuol yr oes, yn 80 oed.**

Roedd yn frawd i Syr James Goldsmith, y miliwnydd oedd yn gefn ariannol i'w weithgarwch o blaid y Ddaear a dynoliaeth.

Meddir am Teddy Goldsmith ei fod yn gwrthod derbyn y gred gyffredinol yn y 1960au nad oedd gan bobloedd llwythol 'cyntefig' y Trydydd Byd bethau o bwys i'w dysgu i wledydd 'cyfoethog'.

Aeth ar daith byd eang i ymweld â chymunedau llwythol gyda'i gyfaill, y naturiaethwr John Aspinall. Profodd yn ysbrydoliaeth i lawer o'i syniadau wrth iddo herio credoau economaidd a chymdeithasol y byd gorllewinol.



Teddy Goldsmith

Wrth edrych yn ôl, meddai am ei daith: 'Treuliais lawer o amser yn Affrica, ynghanol cymunedau llwythol, ac un peth y deëllais i oedd mai rhain oedd yr unig gymdeithasau gwir 'gynaliadwy' yr oeddwn wedi'u gweld.

'Mae'r gair hwnnw yn cael ei ddefnyddio llawer heddiw, ond golygai ddim yn y cyfnod hynny. Ymddangosodd imi ei fod yn hynod bwysig, a dyma oedd pobl oedd yn ei ddilyn yn eu bywydau. Serch hynny, roedd eu holl fodolaeth yn cael ei fygwth gan ehangu didostur y gymdeithas ddiwydiannol.

'Po fwyaf y meddyliais ac a ddarllenais ac a welais i,' meddai, 'po fwyaf y daeth yn glir imi mor fawr oedd y broblem hon. Yma roedd pobl yn trafod sut roedd angen "datblygiad" ar y bobl lwythol dlawd hyn, ond datblygiad oedd yn eu dinistrio. Ac fe ddaeth yn glir imi fod hyn yn wir am y gymdeithas ehangach.

'Roedd yr holl gysyniad o ddatblygiad diwydiannol yn gyfrifol am ddinistrio ecosystemau ledled y byd, a hefyd am ddinistrio cymdeithasau dynol. Daeth yn glir imi mai datblygiad yw'r broblem nid yr ateb.'

**Paul Kingsnorth (cynolygydd yr Ecologist)**: *'Mae llawer o bethau wedi newid yn ystod bywyd Teddy, ond mae'r un syniad hwn yn aros yn dabŵ hyd heddiw: o'r chwith i'r dde, radical i ganol y ffordd, Tony Blair i David Cameron, Bono i'r Socialist Workers' Party, mae pawb yn gytûn bod "Datblygiad", llo aur ein hoes seciwlar, yn Beth Da.' Pawb, hynny yw, ar wahân i Teddy.*

**Paul Craig Roberts (newyddiadurwr, economegydd)**: *'Credai Teddy Goldsmith y byddai oes draflyncu eithafol y dyn hydrocarbon yn fyr ei pharhad, gan ei bod yn llwyr ddibynnol ar ynni olew rhad sydd â diwedd iddo. Credai Teddy mai dim ond cymdeithasau bach ei natur fydd yn goroesi yn y tymor hir.'* ☐

## Cofio'r Gymraes oedd ymhlith arloeswyr cynhara'r byd organig

**YN 98 mlwydd oed, bu farw Cymraes oedd ymysg arloeswyr y mudiad organig, sef Dinah Williams, y Borth ger Aberystwyth – mam y Rachel o gwmni Rachel's Dairies.**

Wedi'i geni ym 1911, roedd Mrs Williams yn ferch i rieni oedd yn arbenigwyr amaethyddol – ei mam, Bessie, yn Albanes fyrlymus ar staff adran amaeth Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, a'i thad, Abel, yn bennaeth ar yr adran.

Wedi colli ei thad yn gynnar, dilynodd Dinah ei mam i redeg ffarm y teulu gan symud i Brynllys ar ôl priodi â Stanley Williams.

Roedd Mrs Williams yn gredwr cryf mewn dulliau ffarmio naturiol. Bu'n dadlau yn ddi-flewyn ar dafod yn erbyn y gwrteithi cemegol oedd yn cael eu gwthio ar ffermwyr wrth i dechnegau ffarmio diwydiannol gael eu mabwysiadu wedi'r Ail Ryfel Byd.

Daeth yn un o aelodau gwreiddiol y Soil Association ym 1946 ar ôl cwrdd â'r Fonesig Eve Balfour, un o brif hyrwyddwr syniadau organig modern.

Wedi i'w gŵr farw'n ifanc, aeth Dinah ymlaen i ddatblygu'r gyr enwog o wartheg *pedigree* Guernsey ar ffarm Brynllys, sef y ffarm laeth gyntaf i gael ei ardystio yn organig ym Mhrydain.

Ar ffarm Brynllys, hefyd, y datblygwyd iogwrt enwog Rachel's, gan Rachel Rowlands, sef un o ferched Mrs Williams, a'i gŵr Gareth.

I nodi ei chyfraniad clodwiw i fyd amaeth, gwnaed Mrs Williams yn gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol Amaethyddol.

Cafodd hefyd ei hanrhydeddu gan y *Soil Association* am 'fywyd o wasanaeth eithriadol i ddatblygiad amaeth organig.' ☐

**Mae llyfr newydd *They Dared to be Different* gan Teleri Bevan (FBA Publications, 2009) yn adrodd hanes Dinah Williams, ei mam Bessie a'i merch Rachel Rowlands.**

## CEFNOGWCH GREENPEACE, MEDD PEDR

**COFIWCH y Ddaear! Dyna un o negeseuon olaf Pedr Lewis, Pen-y-bont ar Ogwr, a fu farw ym mis Awst. Ymgyrchodd Pedr yn frwd o blaid Cymru Rydd Sosialaidd ar hyd ei fywyd — a gwahoddodd roddion at fudiad Greenpeace fel modd i'w gofio.**

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd

**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**



## Ymgyrch Gadwyn Fwyd

RHWNG 5 a 19 Hydref, bydd grwpiau lleol o Gyfeillion y Ddaear ledled Cymru yn cynnal gweithgareddau yn ymwneud ag Ymgyrch Gadwyn Fwyd / *Food Chain Fortnight.* Nod yr ymgyrch yw hybu bwydydd lleol.

**► Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Haf Elgar: Ffôn 02920 229577; ebost hafelgar@foe.org**

## Trawsnewid Gwendraeth

CYNHELIR cyfarfod o fudiad Trawsnewid Cwm Gwendraeth yn nhafarn y Square and Compass, Pontiets, ar nos Iau, 15 Hydref. Croeso i bawb. Gyda safle glo brig yn fygythiad yn y cwm, bydd digon i'w drafod!

**► Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Rebecca Storch: rs@rebeccastorch.com.**

## Cwrs Cynaliadwyedd

CYNHELIR cwrs hyforddi arbennig ar ddatblygiad cynaliadwy gan y WCVA a Chynnal Cymru yn Aberystwyth, gan ddechrau ar 21 Hydref.

**► Am fwy o wybodaeth - www.wcva.org.uk/training**


**HYSBYSEBION Y PAPUR GWYRDD**

**I hysbysebu yn Y Papur Gwyrdd, ffoniwch 01792 798162 neu ebostiwch am fanylion at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com**

**GWEFAN**

**Croeso i chi ymweld â'n Gwefan sydd â phyrth i'r Byd Gwyrdd — sef: www.ypapurgwyrdd.com**


# Ymuno â'r Don yn Llundain

**BYDD llawer o Gymry'n ymuno â Rali Fawr Y Don gan *Stop Climate Chaos Coalition* yn Llundain ar Sadwrn, 5 Rhagfyr. Bydd y miloedd o garedigion y Ddaear (o lawer o fudiadau amgylcheddol ac elusennol) yn dechrau gorymdeithio o Grosvenor Square am 12 gan anelu at amgylchynnu San Steffan am 3 o'r gloch. Y nod fydd dangos cryfder yr alwad am gytundeb i dorri allyriadau $CO_2$ yng Nghynhadledd Copenhagen. Gwybodaeth: www.the-wave.org.uk.**

# Glanyfferi Gwyrdd yn arloesi

BYDD pentref Glanyfferi yn Sir Gaerfyrddin yn treialu prosiect arloesol ***Byw Sir Gâr*** yn ystod Tachwedd i helpu'r trigolion leihau eu hôl troed carbon a delio gyda newid hinsawdd. Bydd amrywiaeth o weithgareddau ar bump thema — arbed adnoddau, arbed ynni, teithio'n gall, siopa'n lleol ac yn foesol, a gofalu am yr ardal leol a bio-amrywiaeth. Bydd yr holl gymuned yn elwa o'r prosiect fydd yn cynnwys archwiliadau o ynni'r cartref, mesur ôl troed carbon, cael cynlluniau gweithredu, cyngor ynghylch grantiau sydd ar gael rhag tlodi, arddangosfeydd a sgyrsiau a ffilmiau — a phopeth am ddim. Medd y Cyng Meryl Gravell o Gyngor Sir Gâr: 'Mae hwn yn gynllun newydd cyffrous iawn a gobeithiwn y bydd ar waith mewn cymunedau eraill yn dilyn yr ymgyrch yng Nglanyfferi.'

## Dydd y Ddaear

MAE Sadwrn, 24 Hydref, yn cael ei nodi ledled y byd fel Dydd Gweithredu'r Ddaear. Trefnwyd gweithgareddau amrywiol mewn tua 120 o wledydd gan fudiad 350. Yng Nghaerdydd, mae mudiad ClimateCamp-Cymru yn disgwyl cynnal nifer o ddigwyddiadau.

**► Manylion: http://www.climatecampcymru.org a thrwy http://www.350.org.**

## Cwrs Permaddiwylliant

MAE cwrs Cynllunio Permaddiwylliant yn cael ei lansio ym mis Hydref yng Nghanolfan Addysg Gymunedol Llandeilo mewn partneriaeth â Choleg Sir Gar.

Mae'r cwrs ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn dysgu am ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.

Cynhelir y sesiynnau ar y dyddiadau canlynol: 24 a 25 Hydref, 14 ac 15 Tachwedd, 16 ac 17 Ionawr, 14 Mawrth, 17 ac 18 Ebrill, a'r 1af – 3ydd Mai. Y gost am y cyfan fydd £42.

**► I archebu lle, ffoniwch Ganolfan Llandeilo ar 01558 822729, neu ar ebost – smerlys@sirgar.gov.uk.**

## Cynnal Amaeth

FFARM Tir Eithin ym mhentref Bancffosfelen fydd lleoliad gweithdy i esbonio syniadau mudiad **Amaeth gyda Chymorth Cymunedol** (*Community Supported Agriculture*) ar ddydd Iau, 5 Tachwedd – Noson Guto Ffowc. Y syniad yw dod â phobl leol, gwerthwyr a chynhyrchwyr bwyd at ei gilydd i greu partneriaethau fydd yn hybu marchnad bwydydd lleol – yn hytrach na dibynnu ar fewnforion mewn archfarchnadoedd. Disgwylir siaradwyr o Ganolfan Organig Cymru ac o *CSA* Stroud. Y gobaith yw creu system tebyg yng Nghwm Gwendraeth.

## Bore Masnach Deg

BYDD cyfle i gymdeithasu ac i ymuno â gweithgareddau Masnach Deg Cymru ar Sadwrn, 7 Tachwedd, wrth i'r mudiad gynnal bore agored ar gampws Caerleon, Prifysgol Casnewydd, rhwng 10 a 2 o'r gloch.

**► Mwy o fanylion: Kate@fairtradewales.com**

## Dydd Lobïo Copenhagen

YN ystod mis Tachwedd, bydd ymgyrchwyr amgylcheddol Cymru yn lobïo Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar bwnc Cynhadledd Newid Hinsawdd Copenhagen.

**► Cysylltwch â Haf Elgar, Cyfeillion y Ddaear: Ffôn 02920 229577; ebost hafelgar@foe.org**

**► Croesawn erthyglau, lluniau, ac eitemau newyddion i'r** Papur Gwyrdd. **Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffoniwch 01792 798162. Llythyrwch at 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX**

**Fyddwch chi ar Y Don yn Llundain?**

# Y byd a'r aelwyd

## Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'

ERS rhifyn diwetha'r **Papur Gwyrdd** buom yn y Bala yn mwynhau ychydig o'r Eisteddfod, gyda Hywel yn ail fyw atgofion maes pebyll arloesol Bala 1967.

Rhywbeth nad oedd ar gael ar y Maes ym 1967 oedd arddangosfa ynni adnewyddol. Megis dechrau oeddem bryd hynny wrth daflu'n hunain yn ddifeddwl i fyd prynwriaeth, gorddefnydd, creu gwastraff ac ati. Wrth i ni ddechrau callio, gwych eleni oedd gweld criw Trydan Tegid gyda'u harddangosfa o drenau bach Heulwen, Dyfrig a Gwenno yn cael eu pweru gan yr haul, dŵr a gwynt.

Mae mynd i'r 'Steddfod fel rhoi par o hoff sliperi cyfforddus ymlaen: cwrdd â chyfeillion, pori trwy lyfrau, arwyddo deisebau'r mudiadau, hepian trwy ddarlithoedd, ambell i orig yn y pafiliwn, osgoi'r asiantaethau drudfawr. Dyma *comfort zone* go iawn.

<u>Ond wythnos wedi'r Eisteddfod, aethom i faes pebyll arall oedd ymhell y tu allan i'n *comfort zone*. Mae'r lluniau yng ngweddill y tudalen hwn yn dangos ble'r oeddem – sef ynghanol criw llawer llai parchus ar faes answyddogol Climate Camp Cymru ar lethrau maluriedig Merthyr Tudful.</u>

Yno, gyda'r heddlu'n gwylio, nepell o safle glo brig enfawr Ffos-y-fran sy'n symbol o ddarostyngiad gwir fuddiannau Cymru a'r Ddaear, roedd rhyw 2-300 o bobl ifainc yn byw'n syml wrth ddysgu sut i barchu'r Ddaear – a sut i wrthwynebu'r corfforaethau sy'n malio dim amdani. Saeson oedd y rhan fwyaf oedd yno, diolch amdanynt, ond hefyd nifer o Gymry Cymraeg yn falch, falch, i gwrdd â'n gilydd gan gredu y gall ein diwylliant ni hefyd fod yn gyfrwng i warchod ein planed.

Roeddem allan o'n *comfort zone*, ond roedd yno groeso. Oes cysylltiad? Wel, gobeithio y gall y Maes Eisteddfodol fod yn fodd i Gymreigio'r mudiad ecolegol, ac y gall Maes Ffos-y-fran fod yn fodd i hybu achos byw bywydau mwy cyfeillgar i'r Ddaear yn ein diwylliant Cymreig.

WRTH gwrs, mae 'na gostau wrth geisio byw'n fwy 'Gwyrdd'. Gyda'n bwyler gwresogi dŵr yn 15 mlwydd oed, a dim ond yn 75% yn effeithiol, penderfynon ni brynu un newydd. Achosodd y pris dipyn o sioc. Ond mae'n bwyler newydd yn 93% effeithiol: yn llawer caredicach i'r Ddaear o ran allyrru llai o garbon, ac yn rhatach i ninnau o ran lleihau defnydd ynni.

Bu ein ffwrn nwy, hefyd, yn dirywio ers tro. Ac felly dyma gael ffwrn newydd, yn drydan yn ogystal â nwy, gyda'r ffwrn yn radd A o ran effeithiolrwydd. Ac mae'r elfen drydan yn gyfle i ni ystyried troi at ffynhonnell ynni adnewyddol.

<u>Ond, rydym wedi dysgu os nad ydych yn ofalus, nid costau ariannol yn unig sydd wrth geisio bod yn garedicach i'r Ddaear.</u>

Cyfeirion ni yn y **Papur Gwyrdd** diwethaf at y ffaith ein bod yn troi at ddefnyddio torrwr gwair di-drydan i dacluso'r lawnt. Y canlyniad? Arbed trydan? Wel, do siŵr. Ond hefyd - y gwryw ohonom wedi 'bennu yng ngofal ffisiotherapydd brwdfrydig gan mai breichiau 'pathetig' (y gair technegol a ddefnyddiwyd) sydd ganddo ar ôl delio gyda dim mwy na chyfrifiaduron ers blynyddoedd. Y canlyniad fu i'w gyhyrau brotestio'n chwyrn am yr ychwanegiad dramatig yn eu defnydd.

***Felly, ara' deg pia hi o hyn ymlaen. Gan obeithio y bydd y Ddaear yn derbyn ein hesgus!***

***Hywel a Charlotte***

**Nage, nid Maes B ... Dyma Wersyll newydd sbon, er mwyn y Byd!**








Herio'r diwydiant glo ger safle glo brig enfawr Ffos-y-fran, Merthyr Tudful






Rhai cannoedd yn trafod dyfodol y Ddaear ac yn cyd-fyw heb achosi niwed iddi



Lluniau: Amelia Gregory a Mark Sherratt





Tipyn o fiwsig

Pawb yn cydweithio â'i gilydd





Bwyd llysieuol blasus

Hwyl i'r plant





Gwersyll 1af ClimateCampCymru

www.climatecampcymru.org

# Mynnwch gwsg ym mynwes natur






... gan gynnwys i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

